

City & Guilds Diploma NVQ mewn Trin Gwallt Lefel 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol uwch sydd eu hangen o fewn y diwydiant trin gwallt. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn salon trin gwallt ar hyn o bryd a chynhelir yr holl asesiadau yn y gweithle.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n gweithio/gyflogedig mewn amgylchedd salon trin gwallt â chleientiaid rheolaidd

...y rhai sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 2 mewn Trin Gwallt

...unrhyw un sydd yn frwd dros drin gwallt

...gweithwyr diwyd â sgiliau cyfathrebu da.

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn edrych ar unedau fel

Ymgynghoriadau â'r cleient

Technegau cywiro lliw a sgiliau lliwio uwch

Sgiliau torri uwch mewn modd creadigol

Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau hyrwyddo

Trin gwallt hir mewn modd creadigol ar gyfer amrywiaeth o achlysuron

Gwallt priodasol

Torri gwallt dynion

Iechyd a diogelwch

Sgiliau Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs hwn yn datblygu eich sgiliau trin gwallt canolradd ac yn eich helpu chi i ddatblygu technegau mwy creadigol.

Gofynion Mynediad

Diploma Lefel 2 mewn Trin Gwallt.

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £140, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.